

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cytundeb Cysylltiadau Rhyng- sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru

Tachwedd 2021



1. Cefndir

Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Bumed Senedd ei adroddiad, *Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd*¹. Un o'i argymhellion² oedd y dylai Llywodraeth Cymru ddod i gytundeb â'r Pwyllgor ynghylch craffu ar waith rhynglywodraethol.

1. Ym mis Ebrill 2018, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid ar y pryd fod Llywodraeth Cymru yn barod i weithio gyda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ddatblygu trefniadau i alluogi'r ddeddfwrfa i oruchwylio'r gwaith a fydd yn deillio o'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin.

2. Yn dilyn gohebiaeth³ rhwng Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd, derbyniodd y Pwyllgor fersiwn ffurfiol o'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol cyntaf (y Cytundeb), a hynny ym mis Ionawr 2019.

3. Ar 31 Ionawr, gosododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol adroddiad⁴ gerbron y Senedd a oedd yn cynnwys y Cytundeb, a nododd y Senedd yr adroddiad a'r Cytundeb yn ffurfiol ar 6 Mawrth 2019.⁵

¹ Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Bumed Senedd, Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, Chwefror 2018

² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, argymhelliad 9

³ Gweler Lythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 25 Mai 2018; Lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 4 Mehefin 2018; Lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 10 Rhagfyr 2018

⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, Ionawr 2019

⁵ Y Cyfarfod Llawn, Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, 6 Mawrth 2019

4. Yn unol â'r Cytundeb, ar 27 Hydref 2020, gosododd Llywodraeth Cymru ei Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar gyfer y cyfnod rhwng 2019 a 2020.⁶

5. Casglodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yr holl ddogfennau perthnasol a oedd yn ymwneud â'r Cytundeb a'u cynnwys ar dudalen we bwrpasol - [Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol](#).

⁶ Llywodraeth Cymru, [Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol 2019-2020](#), Hydref 2020

2. Datblygu Cytundeb ar gyfer y Chweched Senedd

Yn dilyn etholiad cyffredinol y Senedd ym mis Mai 2021 a'r penderfyniad i sefydlu Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad newydd (y Pwyllgor) cytunodd y Pwyllgor i geisio sefydlu Cytundeb newydd â Llywodraeth Cymru a oedd yn ateb y diben yn y Chweched Senedd.⁷

6. Yn dilyn gohebiaeth rhwng y Pwyllgor a'r Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2021⁸, rhannwyd cytundeb drafft â Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2021.

7. Ar 1 Tachwedd⁹, cymeradwyodd y Pwyllgor destun llawn y Cytundeb newydd, a chafodd hwn ei rannu wedyn â'r Prif Weinidog.¹⁰ Cytunodd y Prif Weinidog yn ffurfiol â thestun y Cytundeb newydd ar 8 Tachwedd 2021.¹¹

8. Cytunodd y Prif Weinidog hefyd ar y canlynol o ran sut y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd pan fydd yn bwriadu rhoi, neu wedi rhoi, cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru:

"Gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu i'ch pwyllgor a phwyllgorau perthnasol eraill i roi gwybod iddynt am fwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru, gan egluro'r sail resymegol dros y bwriad i roi cydsyniad. Pan fydd amser yn caniatáu, byddwn yn rhoi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn y rhoddir cydsyniad yn ffurfiol. At hynny hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn gosod Datganiad Ysgrifenedig bob tro y bydd Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Weinidog Llywodraeth y DU arfer pŵer

⁷ Tra oedd trafodaethau ar gytundeb newydd yn cael eu cynnal, aeth Llywodraeth Cymru ati i fodloni'r gofyniad yn y Cytundeb cyntaf i osod adroddiad blynyddol [Gosodwyd Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru: adroddiad blynyddol 2020 i 2021](#), ar 28 Medi 2021. Gweler hefyd [Llythyr gan y Prif Weinidog](#), 4 Hydref 2021

⁸ Gweler [Llythyr at y Prif Weinidog](#), 16 Gorffennaf 2021; [Llythyr gan y Prif Weinidog](#), 27 Gorffennaf 2021

⁹ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 1 Tachwedd 2021](#)

¹⁰ [Llythyr at y Prif Weinidog, 2 Tachwedd 2021](#)

¹¹ [Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Tachwedd 2021](#)

*deddfwriaethol dirprwyedig mewn perthynas â maes datganoledig, gan egluro'r sail resymegol dros y cydsyniad hwnnw, fel arfer cyn pen tri diwrnod gwaith o ddyddiad gosod gerbron neu hysbysu Senedd y DU."*¹²

- 9.** Mae'r Cytundeb newydd yn awr wedi'i osod gerbron y Senedd (gweler yr Atodiad).

¹² Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Tachwedd 2021

Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru

Diben y Cytundeb

1. Mae'r Cytundeb hwn yn cynrychioli'r sefyllfa y cytunwyd arno gan Senedd Cymru (y "Senedd") a Llywodraeth Cymru ynghylch y wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei darparu i'r Senedd o ran ei chyfranogiad mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol, ar lefel weinidogol, ac mewn cytundebau, concordatiau, a memoranda cyd-ddealltwriaeth.
2. Wrth ddod i'r Cytundeb hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod diben sylfaenol y Senedd, sef craffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru o fewn strwythurau rhynglywodraethol ffurfiol. Mae'r Senedd hefyd yn cydnabod ac yn parchu'r angen i weinyddiaethau'r Deyrnas Unedig fedru cynnal trafodaethau rhynglywodraethol cyfrinachol, er enghraifft, pan gynhelir trafodaethau ar faterion penodol.
3. Mae'r Cytundeb hwn yn cydnabod cymhlethdod cynyddol y setliad datganoli a goblygiadau hyn o ran trafodaethau priodol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. O ganlyniad, mae'n cydnabod ymhellach y bydd y gyd-ddibyniaeth rhwng cymwyseddau datganoledig a chymwyseddau a gadwyd yn ôl yn cael ei rheoli'n bennaf mewn cysylltiadau rhynglywodraethol. Mae'r Cytundeb hwn yn ceisio sicrhau bod egwyddorion atebolrwydd Llywodraeth Cymru i'r Senedd, a thryloywder yng nghyd-destun y berthynas hon, yn cael eu cynnwys yn y systemau rhynglywodraethol diwygiedig.
4. Mae'r Cytundeb hwn yn sefydlu tair egwyddor a fydd yn llywodraethu'r berthynas rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chysylltiadau rhynglywodraethol, sef:
 - Tryloywder.
 - Atebolrwydd
 - Parchu a chydabod bod lle i drafodaethau cyfrinachol rhwng llywodraethau, yn enwedig wrth ddatblygu polisi.

Cwmpas y Cytundeb hwn

5. Mae'r Cytundeb hwn yn berthnasol i gyfranogiad Gweinidogion Cymru mewn strwythurau rhynglywodraethol ffurfiol.
6. At ddibenion paragraff 5:
 - a. Mae 'strwythurau rhynglywodraethol' yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:
 - Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (yn ei holl ffurfiau swyddogaethol presennol ac fel y'i diwygir neu y'i disodlir yn y dyfodol);
 - Y Cyngor Prydeinig Gwyddelig; a
 - Fforymau rhyngweinidogol amlochrog a dwyochrog sefydlog neu ad hoc tebyg sy'n bod eisoes neu a allai gael eu sefydlu.
 - b. Mae 'cyfranogiad' yn cynnwys trafodaethau, cyfarfodydd, gohebiaeth a chytundebau mewn cysylltiad â Strwythur Rhynglywodraethol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt.
7. Nid yw'r Cytundeb hwn yn cynnwys ymgysylltiad o fath arall rhwng y llywodraethau, er y bydd yr Adroddiad Blynyddol (y cyfeirir ato ym mharagraff 18) yn gwneud sylwadau ar amrywiaeth a lefel gweithgarwch o'r fath.
8. Bwriad y Cytundeb hwn yw cefnogi gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru a dwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif yn y maes rhynglywodraethol yn unig. Nid yw'r Cytundeb mewn unrhyw fodd yn gosod rhwymedigaethau ar lywodraethau a deddfwrfeydd eraill sy'n ymwneud â chysylltiadau rhynglywodraethol a'r grwpiau a'r cytundebau a ddisgrifir yma. Yn unol â'r egwyddor o barch tuag at gyfrinachedd trafodaethau rhwng gweinyddiaethau, mae'r Cytundeb yn cydnabod na ddylid rhyddhau manylion trafodaethau sy'n cynnwys partneriaid rhynglywodraethol yn uniongyrchol heb eu caniatâd hwy.

Presenoldeb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd

9. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno i roi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac i unrhyw un o bwyllgorau eraill y Senedd, fel arfer o leiaf fis cyn cyfarfod Strwythur Rhynglywodraethol perthnasol ("cyfarfod perthnasol").

- 10.** Os trefnir Cyfarfod Perthnasol er na ellir rhoi mis o rybudd, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ymdrech rhesymol i roi rhybudd ysgrifenedig cyn gynted â phosibl ac, yn sicr, cyn cynnal Cyfarfod Perthnasol o'r fath.
- 11.** Bydd rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw o dan baragraffau 9 a 10 yn cynnwys agenda arfaethedig y Cyfarfod Perthnasol a braslun o'r prif faterion a drafodir, gan gydnabod bod posibilrwydd y bydd eitemau ar yr agenda'n cael eu dynodi'n "breifat" o bryd i'w gilydd, i gydnabod yr angen am gyfrinachedd.
- 12.** Drwy gael rhybudd ymlaen llaw o Gyfarfodydd Perthnasol, bydd y Pwyllgor(au) yn gallu mynegi barn ar y pwnc ac, os yw'n briodol, bydd modd gwahodd y Gweinidog cyfrifol i fod yn bresennol yng nghyfarfod y pwyllgor cyn y Cyfarfod Perthnasol.
- 13.** Ar ôl pob Cyfarfod Perthnasol yn nghwmpas y Cytundeb hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi crynodeb ysgrifenedig o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol a chyn pen pythefnos os oes modd.
- 14.** Yn amodol ar ystyriaethau cyfrinachedd, bydd crynodeb ysgrifenedig o dan baragraff 13 yn cynnwys:
 - gwybodaeth yn cadarnhau pryd y cynhaliwyd y cyfarfod,
 - rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol:
 - braslun o'r prif faterion a chynnwys y trafodaethau,
 - braslun o safbwyntiau Llywodraeth Cymru, ac
 - unrhyw ddatganiad ar y cyd a ryddhawyd ar ôl y cyfarfod.
- 15.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno i ddarparu testun unrhyw gytundebau rhynglywodraethol dwyochrog neu amlochrog i'r Pwyllgor, ac i unrhyw un o bwyllgorau perthnasol eraill y Senedd, ynghyd â fframweithiau cyffredin, concordatau a memoranda cyd-ddealltwriaeth neu benderfyniadau eraill o fewn cwmpas y Cytundeb hwn.
- 16.** Os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu trefniadau newydd gyda'r nod o gyrraedd cytundeb rhynglywodraethol, bydd yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o'i bwriad i wneud hynny.

Cadw cofnodion

- 17.** Bydd gan Lywodraeth Cymru dudalen ddynodedig ar ei gwefan yn cynnwys gwybodaeth am gytundebau rhynglywodraethol ffurfiol, fframweithiau cyffredin, concordatau, memoranda ac unrhyw benderfyniadau eraill y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno arnynt. Dylid cynnwys testun unrhyw ddogfennau o'r fath hefyd, dyddiad y cytundeb ac unrhyw ddiweddariadau a wnaed, a dylid nodi a yw'r dogfennau'n parhau mewn grym.

Adroddiad Blynyddol

- 18.** Bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi Adroddiad Blynyddol ar gysylltiadau rhynglywodraethol.
- 19.** Caiff yr adroddiad hwn ei osod gerbron y Senedd a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi prif ganlyniadau'r gweithgarwch sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, gan gynnwys unrhyw adroddiadau a gyhoeddir gan Strwythur Rhynglywodraethol perthnasol. Bydd hefyd yn rhoi sylwadau ar y gwaith ehangach yn ymwneud â chysylltiadau rhynglywodraethol a aeth rhagddo yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys datrys anghydfodau. Bydd yr adroddiad hwnnwyd hefyd yn cynnwys cymaint o wybodaeth ag sy'n ymarferol a phriodol am faterion y disgwylir iddynt ddod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn ddilynol.

Ymddangos gerbron pwyllgorau

- 20.** Bydd Gweinidogion Cymru yn mynd i gyfarfodydd pwyllgorau perthnasol y Senedd, fel y bo'n briodol, pan fyddant yn cael eu gwahodd i wneud hynny.

Monitro

- 21.** Y pwyllgor a fydd yn arwain y gwaith o fonitro'r modd y caiff y cytundeb hwn ei roi ar waith yw'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Tachwedd 2021